# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADFYWIO A HAMDDEN

## DYDD IAU, 16 MAWRTH 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** M. Gravell (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
J. Bowen, Cynorthwyydd Adfywio Cymunedol;
R. Furlong, Swyddog Cymorth Grantiau;
J. Hancock, Swyddog Datblygu Mentrau Cymdeithasol Blaenllaw;
Y. Pellegrotti, Cydgysylltydd Prosiect
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 20 CHWEFROR, 2017**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 20 Chwefror, 2017 yn gofnod cywir.**

**3. ADDASIAD I'R TÂL A GODIR YN 2017-18 AM NEUADD CHWARAEON LAWN YNG NGHANOLFAN CHWARAEON LLANELLI**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i gynyddu'r gost ar gyfer llogi'r neuadd chwaraeon lawn yng Nghanolfan Hamdden Llanelli a fyddai'n cyd-fynd â'r ffigwr chwyddiant o 2.2% a chanolfannau hamdden eraill ledled y Sir.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnydd yn y gost logi'r neuadd chwaraeon lawn yng Nghanolfan Hamdden Llanelli o'r swm a gytunwyd sef £85 i £86.40.**

**4. CYMORTH ARIANNOL O'R GRONFA GRANT GANLYNOL: CRONFA CYLLID A DARGEDIR**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o'r Gronfa Cyllid a Dargedir yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| Ymgeisydd | Dyfarniad |
|---|---|
| Cyngor Cymuned Llanon a Chlybiau Chwaraeon Gwendraeth Uchaf a'r Gymdeithas Gymunedol | £20,000.00 |
| CYCA | £19,889.00 |
| Canolfan y Mynydd Du mewn partneriaeth â Chyngor Cymuned Cwarter Bach | £16,098.00 |
| Ail Gyfle – Second Chance Ltd | £9,000.00 |
| Gŵyl Ddefaid Llanymddyfri | £20,000.00 |

**5. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr**

**adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**6. GWAREDU D?R WYNEB DWYRAIN CROSS HANDS**

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 5 uchod, na fyddid yn cyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad yn gofyn am awdurdod i ddynodi cyllid er mwyn cael gwared ar gyfyngiad datblygu yn Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo grant o hyd at uchafswm o £20,000 yr un ar gyfer dau berchennog tir gwahanol sef NR Evans a JBCH er mwyn cyflymu'r brosesi o waredu dŵr wyneb o'r system dŵr budr a gosod y cysylltiad dŵr budr yn Nwyrain Cross Hands.**

**7. CRONFA MENTRAU GWLEDIG SIR GAERFYRDDIN - HDG FARM SUPPLIES LTD**

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 5 uchod, na fyddid yn cyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried cais gan HDG Farm Supplies Ltd am grant tuag at adeiladu adeilad newydd pwrpasol ar gyfer storio a dosbarthu yn Sanclêr a fyddai'n arwain at greu 5 o swyddi amser llawn ychwanegol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais canlynol am gymorth o'r Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:-**

| **Yr Ymgeisydd/Eiddo** | **Y Dyfarniad** |
| --- | --- |
| HDG Farm Supplies Ltd / Tir yn Sanclêr | £100,000.00 |